CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| **Cofnodion cyfarfod 10fed o Ebrill 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
|---|---|---|
| **PRESENNOL** | | |
| Llinos Pritchard (yn Rhithiol) | Iola Owen | |
| Kevin Jones | Nia Jones (yn Rhithiol) | |
| Emlyn Baylis | Kim Jones | |
| Louise Price | Helen Sharp | |
| Bethan Holding (cadeirio yn y cyfarfod) | Iwan Harding | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cynghorydd Bethan Holding gan fod y Cadeirydd yn methu bod yn bresennol mewn person ond cymryd rhan yn rhithiol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Rhys ap Gwilym, Gwilym Evans a Trystan Thomas. | **CLERC** |
| 1.1 | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| 1.2 | Ymgynghoriad newydd: Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) - y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor. | |
| 1.3 | Coed Doctor - cafwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Kim Jones ynglŷn â phont bren sydd ar lwybr Cae Doctor. Mae angen eu trwsio neu eu newid yn gyfan gwbwl. Mae Cyngor Gwynedd wedi gorfod ei rhwystro rhag bod pobl yn ei defnyddio er mwyn iechyd a diogelwch. Yn anffodus mae rhywun neu rywrai yn symud y rhwystrau ai taflu. Mae hyn yn broblem ac yn berygl. Gofynnwyd i'r Cyngor rhoi sylw i hyn ar y cyfryngau er mwyn sicrhau cydymffurfio a'r rhwystr. Mater o amser yw hyd nes bydd pont newydd yn cael ei gosod. Mae cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer y gwaith ond bod angen prisiau oddi wrth gontractwyr er mwyn dewis pwy fydd yn gwneud y gwaith. Y Clerc i osod gwybodaeth ar dudalen cymunedol Llanberis a hefyd y safle we. | **CLERC** |
| 1.4 | Cynlluniau Canol Trefi Llechi_ - gwybodaeth wedi ei gyflwyno. | **CLERC** |
| 1.5 | Parcio Nant Peris a A4086 - cyflwynwyd adroddiad lafar gan sawl cynghorydd ar y parcio oedd wedi bodoli dros wyliau'r Pasg. Trafodwyd y mater yn drwyadl gan benderfynu ar y canlynol: · Gwneud cais i Gyngor Gwynedd am fanylion y Clirffordd oedd yn bodoli ar y ffordd eisoes ac os oedd yn parhau. · Cwyno i Gyngor Gwynedd am y diffyg gorfodaeth · Gwneud cais i Gyngor Gwynedd i gau'r gilfan gyferbyn a Bens sydd ddim yn lleoliad ar gyfer parcio oherwydd nid oes cwrbiau wedi eu gostwng. Mae'r Cyngor yn credu mai pwynt golygfa yw. · Mae'r gilfan uchod yn cael ei defnyddio ar gyfer aros dros nos sydd yn achos o sbwriel a gwastraff dynol sydd yn cael ei adael tu ôl i'w wal. · Gwahodd swyddog i ddod i siarad â'r cyngor cymuned i'w weledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer y problemau parcio parhaus. | |
| 1.6 | Defaid - mae'r broblem yma yn un parhaus, mae llawer o resymau pam mae hyn yn digwydd ef, diffyg rheolaeth y ffermwyr, diffyg ar ffensys a waliau a hefyd bod gridiau gwartheg yn llawn o faw ac angen eu glanhau. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt wasanaethu'r rhain. | **CLERC** |
| 1.7 | Gweler eitem 1.5 | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **ADRODDIAD AR FATERION SIROL** | |
| 3.1 | Mae'r Cynghorydd Kim Jones bellach ar famolaeth a ni fydd adroddiad ysgrifenedig am y tro. Estynnwyd cyfarchion iddi hi a Mathew John ar enedigaeth Caio Gwyn. | |

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| 4.1 | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Mawrth 2024 a'u derbyn. | |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| 5.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Mawrth 2024. | |
| 5.2 | CCTV - dim gwybodaeth am ddyddiad i'r cyfarfod cyhoeddus. Y Clerc i anfon at yr heddwas eto. | |
| 5.3 | Newid Safle Bin Sbwriel Cae Chwarae Lan Llyn - dim dilyniant gan Gyngor Gwynedd, pris am y bin a'r gwasanaeth cludo heb ei dderbyn. Y Clerc i anfon at Gorfodaeth Stryd eto. | **CLERC** |
| 5.4 | Cerflun Coffa'r Chwarelwyr - dim i'w adrodd hyd yma. | **CLERC** |
| 5.5 | Hysbysfwrdd y Fynwent - mae'r hysbysfwrdd bellach wedi ei osod ar y safle. | |
| 5.6 | Llwybrau Cyhoeddus - dim llwybr wedi ei adolygu hyd yma ond mae'r tywydd wedi bod yn ddrwg iawn. | |
| 5.7 | Arwydd dwyieithog bellach wedi ei osod. | |
| 5.8 | Arian HBO - nid yw'r panel wedi cyfarfod hyd yma. | |
| 5.9 | Gampfa agored - dim byd pellach i'w adrodd ar hyn o bryd ond bod ymateb yr holiaduron wedi bod yn bositif. | |
| **6.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 6.1 | Gweler eitem 5.6 | |
| **7.0** | **Y FYNWENT** | |
| 7.1 | Nid yw'r pwyllgor wedi cyfarfod hyd yma. Deall gwybodaeth i'w law nad yw yn bosib newid trefn claddedigaethau o fewn y fynwent. Dim ond angen i'r pwyllgor ystyried ffioedd y fynwent bellach. | **CLERC** |
| **8.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim | |
| **9.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| 9.1 | Dim i'w adrodd hyd yma | |
| **10.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| 10.1 | Dim i'w adrodd. | |
| **Llofnod:** | Glynn T. Evans. | **Dyddiad:** **8/5/24** |